

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad at lwyddiant y Gymanfa, yn cynnwys athrawon yr Ysgolion Sul, yr arholwyr, Mrs. Barbara Jones, Bethlehem, Miss Iona Jones, Peniel, Pentir a Mrs Llinos Davies, Emaus, Bangor yn ogystal â'n trysorydd ffyddlon a gofalus, Mr. Joe Hughes, Carmel.

Neville Hughes.(Ysgrifennydd)

## Ysgol Sul Bethlehem

Mae'r Ysgol Sul ym Methlehem wedi dod i ben yn gynnar dros wyliau'r haf. Mae llythyr wedi ei anfon at deuluoedd yr Ysgol Sul i egluro mai'r bwriad yw ail gychwyn yr Ysgol Sul ym mis Medi wedi gwylliau haf yr ysgol.

Diolch yn fawr iawn i athrawon yr Ysgol Sul am eu holl waith dros y flwyddyn. Gobeithio'n fawr y bydd nifer dda o blant yn ail ymuno â'r Ysgol Sul ym mis Medi.

## Agor y Llyfr

Bydd criw Agor y Llyfr Deiniolen yn ymweld ag Ysgol Gwaun Gynfi unwaith eto ddydd Gwener nesaf, Mehefin 9, i gyflwyno stori arall o'r Beibl i'r plant yn y gwasanaeth boreol.

## Cyhoeddiadau

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Mehefin 4 - Y Sulgwyn

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Mehefin 11

5.00 p.m. - Mr Glyn Owen

#### Mehefin 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Mehefin 11:** Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 gan Mr Glyn Owen, Llanwnda.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Wener, Mehefin 9:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mehefin 11:** Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mehefin 11:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Mehefin 11:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

**Dydd Iau, Mehefin 15:** Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

### CARMEL

**Nos Wener, Mehefin 2:** Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mehefin 11:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch; a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Llun, Mehefin 5:** Ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Mehefin 4 - Y Sulgwyn

10.00 a.m. - Y Parchg R O Jones

5.00 p.m. - Y Parchg R O Jones

#### Mehefin 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Mehefin 18

10.00 a.m. - Y Parchg Reuben Roberts

11.15 a.m. - Ysgol Sul



# Gronwyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 732: Y Sulgwyn, 04 Mehefin, 2017

## Dydd y Pentecost

ddiolch am yr hyn a ddigwyddodd pan dywalltodd Duw yr Ysbryd Glân ar y disgyblion yn ninas Jerwsalem saith wythnos wedi i'r Iesu atgyfodi.

Mae Llyfr yr Actau yn sôn am swm fel gwynt nerthol yn rhuo a thafodau fel o dân yn disgyn ar y disgyblion cyn i'r rheiny ddechrau siarad mewn ieithoedd dieithr. Mae'r cyfan yn llawn cyffro ac yn swnio'n ddieithr iawn i ni. Ond yr un peth y dylid ei gofio o flaen popeth arall yw mai arwyddion yw'r cyfan o ddyfodiad yr Ysbryd i arwain y bobl hyn yn y gwaith o gyflwyno'r Efyngyl i'r byd. Oherwydd, pe na fyddai'r dydd hwn wedi digwydd, a phe na fyddai'r Ysbryd wedi ei roi ni fyddai Eglwys Iesu Grist wedi dechrau'r genhadaeth a fyddai'n mynd â'r newydd da am Iesu i bob cwr o'r ddaear.

Yn syml iawn, heb y Pentecost, fyddai dim Eglwys ohoni. Fyddai'r Ffydd ddim wedi ei rhannu a fyddech chi a minnau ddim yn gwybod am Iesu. Yn nerth yr Ysbryd Glân y cyhoeddwyd mai yn yr Arglwydd Iesu Grist yr oedd, ac y mae o hyd obaith a bywyd. Roedd rhaid wrth y Nadolig, ynghyd â'r Grogith a'r Pasg a'r Esgyniad. Heb y rhain, ni fyddai gan yr Eglwys ddim i'w gyhoeddi. Ond roedd rhaid hefyd wrth y Pentecost, oherwydd hebdo a heb yr Ysbryd a ddaeth y diwrnod hwnnw ni fyddai'r Eglwys erioed wedi medru gwneud ei gwaith; ni fyddai'r tyrfaoedd wedi dod i greu yng Nghrist; a byddai'r Eglwys wedi bod yn dragwyddol fud.

Heb unrhyw amheuaeth, un o ddyddiau pwysicaf yr Eglwys Gristnogol yw'r Sulgwyn a ddathlwn heddiw. Nid bod hynny'n amlwg chwaith o'r sylw a roddwn i'r diwrnod. O'i gymharu â'r gwylliau eraill a ddathlwn, tipyn o frawd gwan yw'r Sulgwyn o hyd. Rhown lawer mwy o sylw i'r Nadolig a'r Pasg a'r Diolchgarwch nag a roddwn i'r Pentecost a'i stori ryfedd am yr Ysbryd Glân yn dod yn rymus ar ddisgyblion yr Arglwydd Iesu Grist. A bod yn gwbl onest, mae'n hawdd iawn anghofio'n llwyr amdani. Mi fentraf ddweud na fydd pob eglwys yn dathlu'r wyl heddiw, a hynny am y rheswm syml na fydd pob eglwys (na phob gweinidog) yn sylweddoli ei bod yn Sulgwyn o gwbl.

Y mae i bob un o wyliau'r Eglwys ei harwyddocad a'i phwysigrwydd ei hun. Mae'n anodd iawn dweud fod un yn bwysicach na'r llall. Wedi'r cyfan, mae prif wyliau'r Ffydd Gristnogol yn dwyn i gof y digwyddiadau allweddol ym mywyd a gweinidogaeth Iesu Grist. Ac y mae i bob digwyddiad a gofir ei ran allweddol yn stori fawr ymwneud grasol Duw â ni trwy ei Fab. Mae'r gwylliau'n gyfle i ni gofio a diolch am eni Iesu, a'i farwolaeth a'i atgyfodiad a'i esgyniad. Mae'r cyfan ynghlwm wrth ei gilydd, ac nid yw'r stori fawr yn gyflawn heb yr un o'r digwyddiadau unigol hyn.

Ond nid yw'r stori'n gyflawn chwaith heb yr hyn a ddathlwn ar y Pentecost, a heddiw cawn gyfle newydd i gofio ac i

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm



'Mawl sy'n ddyledus i ti, O Dduw, yn Seion; ac i ti, sy'n gwrandao gweddi, y telir **BEIBL BYW** adduned. Atat ti y daw pob un â'i gyffes o bechod: "Y mae ein troseddau'n drech na ni, ond yr wyt ti'n eu maddau." Gwyn ei fyd y sawl a ddewisi ac a ddygi'n agos, iddo gael preswyllo yn dy gynteddau; digoner ninnau â daioni dy dŷ, dy deml sanctaidd. Mewn gweithred-oedd ofnadwy yr atebi ni â buddugoliaeth, O Dduw ein hiachawdwriaeth; ynot yr ymddiried holl gyrion y ddaear a phellafoedd y môr; gosodi'r mynyddoedd yn eu lle â'th\_nerth, yr wyt wedi dy wregysu â chryfder; yr wyt yn tawelu rhu'r moroedd, rhu eu tonnau, a therfysg pobl-oedd. Y mae trigolion cyrion y byd yn ofni dy arwyddion; gwnei i diroedd bore a hwyr lawenhau' (Salm 65:1-8).

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg R O Jones, Gaerwen. Nid oes Ysgol Sul oherwydd y gwyliau.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a bydd yr oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch dan ofal y Gweinidog.

Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Elizabeth Bryan Griffith, Rallt Goch Ceunant, Llanberis a fu farw yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ddydd Gwener, Mehefin 2. Cydymdeimlwn â'i merched Bethan a Nia a'r teulu cyfan yn eu colled.

## Cymorth Cristnogol

Casglywd £800 yn Neiniolen yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ganol Mai. Diolch am bob cyfraniad, a diolch yn arbennig i'r casglyddion ac i'r trefnwyr, Neville a Jane Thorman Jones.

## CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch nos Wener, Mehefin 9.

## Y Ffordd

Cynhelir cyfarfod nesaf cwrs 'Y Ffordd' yn festri Carmel am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Mehefin 14.



Adroddwyd yn *Gronyn* y Sul diwethaf fod Cynllun Efe yn bwriadu 'hysbysebu o fewn y pythefnos nesaf am weithiwr newydd i olynu Andrew'. Roedd un neu ddau o bethau heb eu cadarnhau, ond bellach gallwn roi'r darlun llawn i chi. Ond rydym bellach yn hysbysebu am 'Weithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd Cristnogol' llawn amser.

Er mwyn cynnal swydd lawn amser bydd Cynllun Efe yn cydweithio â dau 'bartner' arall.

Y cyntaf yw Eglwys y Bedyddwyr yng Nghaersalem, Caernarfon. Mae'r eglwys hon wedi bod yn cefnogi Cynllun Efe yn ariannol ers sawl blwyddyn bellach. Mae Caersalem hefyd wedi bod yn cynnal gweithwyr am ddiwrnod neu ddau i weithio gyda phlant a ieuentid. Ond mae wedi penderfynu cydweithio â Chynllun Efe er mwyn cynnal Gweithiwr newydd.

Yr ail 'bartner' a fydd yn cydweithio â ni yw *Scripture Union* Cymru. Mae Efe wedi bod yn 'aelod cysylltiol' o *Scripture Union* ers sawl blwyddyn. Mae *Scripture Union* wedi ymrwymo i gyfrannu arian a fydd yn galluogi'r Gweithiwr newydd i neilltuo diwrnod yr wythnos i 'Genhadaeth trwy Chwaraeon' y mudiad mewn gwahanol rannau o Ogledd Cymru yn ogystal â'r ardal hon.

Bydd Gweithiwr newydd Cynllun Efe felly yn gwasanaethu yng Nghaersalem Caernarfon am ddiwrnod a hanner yr wythnos ac yn gwasanaethu *Scripture Union* am ddiwrnod yr wythnos. A bydd yma yn ardal Efe am ddau ddiwrnod a

hanner. Ond gan ein bod yn rhagweld cyfleoedd i'n grwpiau CIC wneud pethau ar y cyd â grwpiau ieuentid Caersalem, a hefyd yn rhagweld y bydd rhywfaint o waith y Genhadaeth trwy Chwaraeon yn cael ei wneud yn yr ardal hon, bydd yn naturiol beth hyblygrwydd i'r patrwm hwn.

Mae'n ddatblygiad cyffrous iawn, ac mae Ymddiriedolwyr Efe, eglwys Caersalem a *Scripture Union*, yn gweddio y llwyddwn i benodi person addas. Yn amlwg, mae gwahanol agweddau'r swydd yn golygu y byddwn yn chwilio am berson sydd â sgiliau a diddordebau penodol. Mae'r hysbyseb ar wefannau Cynllun Efe a'r Ofalaeth a thudalen *Facebook* Cynllun Efe. Bwriedir penodi'r Gweithiwr ddechrau Gorffennaf ar gyfer cychwyn yn y swydd ddechrau Medi.

Gweddiwch chithau os gwelwch yn dda dros y gwaith; ac yn benodol gweddiwch y down o hyd i'r person addas.

## Cymanfa Ysgolion Sul Annibynwyr Bangor a Bethesda

Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Carmel Llanllechid ar fore Sul, 21 Mai. Daeth cynulleidfâ dda ynghyd, gyda llawr y capel yn rhwydd lawn, ac fe gafwyd cyfarfod i'w gofio.

Gwobrwywyd 82 o blant a ieuentid am eu gwaith yn yr ysgolion Sul ar hyd y flwyddyn.

Yr arweinydd cerddorol oedd Mrs. Helen Wyn Williams, Carmel, gyda Mrs. Rhian Roberts, Carmel, yn cyfeilio. Clwb Dwylo Prysor Carmel roddodd gychwyn teilwng i'r gweithgareddau ac fe gafwyd deuawd wirioneddol wych gan Elen ac Owain cyn y diwedd. Llywiwyd y Gymanfa yn raenus iawn gan ddwy aelod o'r Clwb, sef Manon Huws a Rhiannon Llwyd.